# COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 9fed MEHEFIN 2025

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd

Mark Thomas

Rory Francis

David Meirion Jones

Peeter Jones

Troy Maclean

Geoffrey Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Dewi Prysor Williams, Gareth Glyn Davies a Morwenna Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion Cadeirydd**

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod bod gwahoddiad wedi dod gan Gwmni Bro i fynychu sesiwn ar Theori Hierarchiaeth Maslow os oedd gan unrhyw un ddiddordeb.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**6. Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

Cyfarfod Arferol – 12 Mai 2025. Gan gyfeirio at eitem 8, Lloches Bws gyferbyn â'r Wynne's, nododd Y Cynghorydd Mark Thomas iddo godi'r mater yn y gorffennol ond bod y Cyngor wedi ei anwybyddu. Yn amodol ar ychwanegu hynny, cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y cofnodion yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

Cyfarfod Blynyddol – 13 Mai 2025. Gan gyfeirio at eitem 9, Cylch Gorchwyl y Cyngor Tref, nododd Y Cynghorydd Mark Thomas nad ef a gynigiodd dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Digwyddiadau gyda gwariant o £10,ooo ar gyfer penwythnos blynyddol Hwyl yn y Parc. Yn amodol ar y cywiriad hwnnw, cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

Pwyllgor Mwynderau – 19 Mai 2025. Mewn perthynas ag eitem 9, nodwyd mai'r Cynghorydd David Meirion Jones a gynigiodd derbyn cynnig yr Heddlu o arian tuag at ddiwrnod agored yn y Berllan, ac nid Y Cynghorydd Peter Jones. Yn amodol ar y cywiriad hwnnw, cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

Pwyllgor Digwyddiadau – 27 Mai 2025. Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y cofnodion yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

**7. Ysgol Maenofferen – Sefyllfa Parcio**

Cyflwynwyd ac ystyriwyd gohebiaeth rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa parcio. Adroddodd Y Cynghorydd Rory francis ei fod ar ddeall bod adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn dal i ystyried opsiynau. Dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y problemau parcio yn ymestyn o gwmpas y Parc a bod pobl leol yn parcio ar y palmant. Cynigiodd bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â phobl yn parcio ar y palmant ac o flaen gatiau'r Parc a gofyn am gael rhoi llinellau melyn yno. Eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean a chytunodd pawb.

**8. Lloches Bws gyferbyn â'r Wynne's, Manod**

Adroddodd y Clerc iddi gyfarfod gyda'r Cynghorydd Sir, Geraint Parry ar y safle a bod swyddog o Gyngor Gwynedd yn dod i edrych ar y lleoliad drannoeth. Dywedodd nad oedd arian yn y gyllideb eleni ond bydddai swm yn cael ei neiltuo pe byddai'r swyddog yn cytuno bod angen. Derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Caffi'r Pafiliwn**

Adroddodd y Clerc nad oedd y cynlluniau wedi cyrraedd ac yn byddai'n ceisio cael gafael ar y pensaer yr wythnos honno.

**10. Rhestr Taliadau a Derbyniadau**

Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y rhestr yn cael ei derbyn a chytunodd pawb.

**11. Clwb Ieuenctid**

Derbyniwyd gohebiaeth gan y Swyddog Ieuenctid ynglŷn â'r ddarpariaeth clwb ieuenctid ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn cymryd yr opsiwn dwy noson yr wythnos gyda 3 gweithiwr, a chytunodd pawb.

**12. Cais i Ddefnyddio'r Parc**

Ystyriwyd cais gan Craig Blaenau i ddefnyddio'r Parc ar yr 2il Gorffennaf rhwng 3.30-7pm. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod caniatâd yn cael ei roi a chytunodd pawb.

**13. Cais gan OPRA Cymru**

Roedd cais wedi dod gan OPRA Cymru am ganiatâd i ffilmio yng nghaeau chwarae Manod a Thanygrisiau. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod caniatâd yn cael ei roi a chytunodd pawb.

DRAFT

**14. 'Gwynedd Ni'**

Derbyniwyd gohebiaeth ynglŷn â chynllun grant Gwynedd Ni. Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn gwneud cais am grant ar gyfer ariannu si-sô newydd yng Nghae Bryncoed a chytunodd pawb.

**15. Cais am Lythyr Cefnogaeth**

Ystyriwyd cais gan Gwmni Seren, yn gofyn i'r Cyngor Tref ysgrifennu llythyr cefnogaeth i'w cais am grant i gael ramp i'r gwesty. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y Cyngor yn gwneud hynny a chytunodd pawb.

**16. Cyflwyniad ar Waith yn y Berllan i Bartneriaeth Natur Gwynedd**

Cafwyd cais i wneud cyflwyniad 5-10 munud ar y gwaith a oedd wedi ei wneud yn y Berllan gydag arian grant. Cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths a Mark Thomas yn gwneud hyn.

**17. Heddwch ar Waith**

Roeddd gohebaieth wedi ei derbyn gan fudiad Heddwch ar Waith. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor yn eu gwahodd i annerch y Cyngor Tref a chytunodd pawb.

**18. Cyfle i'r Cynghorwyr adrodd yn ôl**

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod angen torri gwrych y Parc. Cytunwyd gofyn i feddyg coed am bris ac os oedd yn dderbyniol, mynd ati i wneud y gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.36pm

DRAFT